# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Mawrth, 7fed Medi, 2021 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
| --- | --- |
| County Councillor P. Jordan, (Chairman)<br>County Councillor R.Roden, (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: J.Becker, A.Davies, G. Howard, B. Strong, L.Dymock, M. Powell, V. Smith and S. Woodhouse | Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter<br>Mark Hand, Pennaeth Llunio Lle, Tai, Priffyrdd a Llifogydd<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Dave Baxter, Rheolwr Theatr y Borough<br>Dave Loder, Rheolwr Cyllid |

**APOLOGIES:** Councillors D. Evans and M.Feakins

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Davies fuddiant personol fel preswylydd Heol yr Eglwys, Cil-y-coed. Datganodd y Cynghorydd Woodhouse fuddiant personol fel aelod o gymdeithas amatur sy'n llogi Theatr y Borough.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau gan y cyhoedd.

3. **Craffu'r Cynnig i Ail-wampio Theatr y Borough (adroddiad i ddilyn).**

Cyflwynodd Dave Baxter, Rheolwr Theatr y Borough, yr adroddiad ac atebodd gwestiynau aelodau gyda Cath Fallon a Mark Hand.

**Her:**

*Gan faint y cododd y costau? A yw'r cynnydd oherwydd deunyddiau?*

Roedd gwerth ychwanegol ar rai elfennau h.y. gan fod angen gwneud rhywbeth, sylweddolem y byddai'n fuddiol gwneud pethau eraill yr un pryd. Fe wnaeth Maintfesurydd gostio popeth i lle y credem y dylai fod, ac wedyn aethom allan i'r farchnad ar gyfer y prif gontractwr. Y contractwr a ddewiswyd oedd y cynnig gorau ac isaf. Felly, roedd yn broses gystadleuol ac yn dilyn yr un llwybr â phrosiectau eraill e.e. canolfan gelfyddydau yng Ngorllewin Cymru a wnaeth brosiect cyfalaf, lle dyblodd costau. Dylid ei ystyried fel buddsoddiad, oherwydd yn ogystal â bod yn adnodd i'r gymuned leol, mae'n sbardun ar gyfer diwylliant a chyfleoedd ar gyfer addysg, cydlyniaeth gymdeithasol ac yn y blaen.

*A fu'n achos o wneud elw gormodol?*

Gan edrych ar y darlun ehangach, ac o drafodaethau gyda'r penseiri allanol, nid yw'n ymddangos fod hynny'n wir. Nid yw'r sefyllfa hon yn anarferol ac mae'r contractwr wedi cytuno cadw'r pris hyd fis Medi, tu hwnt i pryd yr oedd yn rhaid iddynt.

*Mae angen mewnbwn ariannol sylweddol gan y cyngor. Ydych chi'n hyderus na fydd hyn angen mwy a mwy o gyllid yn y blynyddoedd i ddod?*

Ydym, rydyn ni'n hyderus ac yn ei weld fel adnodd i Sir Fynwy i gyd. Mae'n achos o fod yn ofalus gydag adnoddau diwylliannol. Wrth edrych ar y map cod post o'r rhai a fu'n bresennol mewn sioe a gynhaliwyd yn y castell yn ddiweddar, roedd y gynulleidfa wedi mynychu o dde'r sir hyd at Flaenau'r Cymoedd. Dylid gweld rheolaeth a chyfeiriad y theatr fel ased strategol. Mae'n bwysig iawn i'r Fenni ond mae angen iddo fod yn fuddiol ar gyfer y sir gyfan. Mae tair elfen i ganolfan gelfyddydau lwyddiannus: y cyfleusterau eu hunain (offer a safle), y staff a'u datblygiad sgiliau (yn achos y Borough, staff a gwirfoddolwyr medrus) a'r berthynas gyda'r gymuned a'r cyswllt gyda'r gymuned. Mae'n her ac mae'n gwestiwn o sut y gallwn roi budd i'r holl ardal: i ni, mae'n achos o fod â'r adnoddau hynny.

*Mae'n anffodus fod costau wedi codi ond mae'n hanfodol fod yr ailwampio hwn yn mynd yn ei flaen. Defnyddiwyd y theatr am 100 mlynedd ac mae'n dod â llawer o fusnes i'r dref.*

Mae pwysigrwydd y theatr i hunaniaeth y Fenni yn gysylltiedig gyda thrafodaethau am y siarter creu lleoedd – mae ystyried hunaniaeth unigryw a diwylliant y dref yn rhan allweddol o'r dull creu lleoedd. Mae'r mater hefyd yn cysylltu gydag ystyriaeth o ddyfodol ein trefi a'n stryd fawr: fel y soniodd yr aelod, gallai min nos yn y theatr gyda phryd o fwyd cyn hynny a/neu ddiod wedyn fod yn rhan sylweddol o economi ac apêl ddiwylliannol y Fenni.

*Ni chafodd £279k ei benderfynu eto. A yw'r cyfarfod sydd ar y gweill gyda Cyngor Tref y Fenni i drafod y diffyg hwnnw?*

Ydi, mae'r sgwrs ar 15 Medi er mwyn trafod ymestyn y rhaglen adnewyddu ac unrhyw gefnogaeth bosibl y gallai cyngor y dref ei roi i fynd i'r afael â'r diffyg hwnnw.

*Os nad yw cyngor y dref yn cynnig datrysiad i'r diffyg, lle ydym ni'n mynd wedyn?*

Rydyn ni'n edrych am opsiwn ar gyfer cyllid benthyciad drwy'r bwrdd gweithiau cyhoeddus, ond gobeithiwn y gall cyngor y dref ymuno â ni.

*Mae'r syniad o fedru tynnu'r seddi fel y gellid ei ddefnyddio fel un ystafell fawr ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau yn un diddorol. Mae pryder serch hynny am golli pydew y gerddorfa.*

Rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda'n defnyddwyr i edrych ar wahanol gynlluniau ar gyfer y gerddorfa, a byddwn yn eu cynnwys mewn trafodaethau gyda'r tîm dylunio dros tua'r mis nesaf. Diolch i Aelod Cabinet Dymock am ei chefnogaeth, yn neilltuol wrth symud ymlaen â'n perthynas gyda grwpiau rhanddeiliaid a defnyddwyr. Rydym yn awyddus i gadw ymlaen gyda hynny ac i weithio'n agos gyda nhw. Llawer o ddiolch i'r staff a'r tîm drwy gydol y cyfnod hwn hefyd.

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Mae nifer o aelodau wedi siarad yn angerddol o blaid adnewyddu'r theatr gan sôn am ei phwysigrwydd hanesyddol a chyfredol i'r dref a'r ardal yn ehangach. Yn ychwanegol, gwnaeth y Cynghorydd Dymock, Aelod Cabinet Llesiant Cymunedol a Chyfiawnder Cymdeithasol, y sylwadau dilynol:

Gwerthfawrogir sylwadau'r Aelodau yn fawr. Mae nifer fawr o'r cyhoedd wedi fy stopio yn y stryd i ofyn am ail-agor y theatr. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud hynny gan gofio mor arbennig y mae i'r dref ond hefyd i'r rhai sy'n ymweld â Sir Fynwy. Mae'n adeilad bendigedig ac mae Dave Baxter yn rheolwr gwych a staff rhagorol. Diolch i'r cynghorwyr Sheila Woodhouse a Tudor Thomas, a fu'n gefnogol iawn. Rydym wedi trefnu teithiau i grwpiau defnyddwyr rannu'r hyn a ddarganfuwyd yn yr ymchwiliad ac esbonio'r rheswm pam y cynyddodd y costau. Fe wnaethom hefyd gynnal sesiwn cwestiwn ac ateb gyda grwpiau defnyddwyr. Gobeithio y bydd y cyngor llawn yn cefnogi'r prosiect.

4. **<u>Craffu'r Prosiectau Adfywio arfaethedig a'r Ceisiadau am Grantiau Creu Lleoedd (adroddiad i ddilyn).</u>**

Cyflwynodd Mark Hand yr adroddiad a'r atodiadau ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda Dave Loder:

**Her:**
*Y cynnig i Lywodraeth Cymru am £554k – a oes ganddi unrhyw lais am y cyflwyniad dangosol a'r ffordd y caiff ei ddyrannu?*

Mae'r cyllid yn gadarn. Mae'n ddegfed rhan gyfartal o'r swm a ddyrannwyd i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Caiff ei weinyddu gan Rhondda Cynon Taf, sy'n broses a ddefnyddiwyd o'r blaen. Mae cwpl o gamau: yn gyntaf, cael cymeradwyaeth aelodau i'r hyn rydym yn ei awgrymu. Mae hefyd gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru eu bod yn hapus y bydd y prosiectau yn cyflawni'r deilliannau gofynnol ac yn diwallu telerau ac amodau'r grantiau. Yna mae'r trosolwg gan gydweithwyr ar sail ranbarthol – gan mai Rhondda Cynon Taf sy'n gweinyddu, nhw sy'n gyfrifol am y telerau ac amodau. Ar gyfer cyllid yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddo ffitio gyda strategaethau ehangach e.e. rhan arall o'r cyllid grant y gwnaethom gynnig iddo yw arian i ddatblygu, mewn partneriaeth gyda Chyngor Tref Cas-gwent, strategaeth gynhwysfawr ar gyfer y dref, gan gysylltu gyda'u Cynllun Lle. Rydym hefyd wedi cyflwyno Trefynwy ar gyfer yr un peth rhag ofn fod arian dros ben. Os yw'r cyllid ar gael y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyflwyno cynnig ar gyfer y Fenni. Mae gennym strategaethau cynhwysfawr ar waith eisoes ar gyfer Cil-y-coed a Brynbuga. Ond rydym angen i'r dogfennau hynny fod yn eu lle i sicrhau y caiff y cynigion eu llywio yn y dyfodol a'u bod yn gydnaws gyda strategaethau ehangach a gytunwyd. Ond oes, mae cam lle mae Llywodraeth Cymru yn gwirio fod yr arian cywir yn cael ei wario ar y pethau cywir. Mae gennym ddialog barhaus a pherthynas gadarnhaol gyda'r swyddogion dan sylw.

*Sut y bydd cymryd £250k o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer Theatr y Borough yn effeithio ar y prosiectau a amlinellir yn y cynigion dangosol?*

Caiff Theatr y Borough ei restru yn Atodiad 2. Mae'r dyraniad o £250k a awgrymir yno eisoes. Nid yw'n effeithio ar ddim o'r cynigion eraill. Awgrymwn fod Heol yr Eglwys, Cil-y-coed yn mynd yng nghyflwyniad drafft 2022-23. Rydym ar fin sicrhau cyllid Teithio Llesol ar gyfer y llwybr hwnnw, a fyddai'r flwyddyn ariannol hon felly byddem yn defnyddio cyllid Teithio Llesol y flwyddyn ariannol hon a'r arian cyfatebol sydd ei angen gan Gyngor Sir Fynwy, a byddai arian Trawsnewid Trefi ar gyfer y flwyddyn newydd yn mynd â'r prosiect yn ei flaen. Yn gryno, gallai prosiectau Heol yr Eglwys a Theatr y Borough ill dau ddigwydd, ynghyd â'r prosiectau eraill a restrir yn y tabl.

*Mae gennym gyfran 10% o'r grant creu lleoedd. A yw'r cynnig £75k ar gyfer Cas-gwent allan o'r grant hwnnw?*

Na, mae tri pot gwahanol Trawsnewid Trefi. Y cyntaf yw'r grant creu lleoedd (£791k) a restrir yn atodiad 2. Mae hefyd gronfa refeniw, lle gwnaethom roi'r £75k ar gyfer strategaeth gynhwysfawr Cas-gwent. Y trydydd pot yw'r gronfa fusnes, lle'r ydym hefyd wedi rhoi rhai cynigion. Caiff eitemau eraill ar gyfer Cas-gwent (heblaw'r £75k ar gyfer y gronfa refeniw) eu rhestru yn erbyn y grant creu lleoedd a'r gronfa fusnes.

*Bu'r hyn a wnaed yng Nghas-gwent yn y cyfamser yn hwyr yn y dydd ac eisoes yn disgyn yn ddarnau – pam nad ydyn ni'n cael y cyllid i unioni hynny?*

Os yw'r Cabinet yn cymeradwyo y bydd y mesurau interim yn aros yn eu lle am fwy o amser, yna bydd yn rhaid ystyried rhai pethau fel palmant botymog eto ac ail-wneud yn unol â hynny. Fel mesur tymor byr, gofynnwyd i'r contractwr ddychwelyd a thrin y problemau uniongyrchol. Byddwn yn trafod cynnal a chadw y grisiau coffa gyda chydweithwyr. Ni wyddem am y problemau gyda'r tybiau blodau, ond gallwn adolygu eu hansawdd a'u hatgyweirio neu roi rhai newydd. Os yw'r Cabinet yn penderfynu peidio ymestyn y mesurau, yna ni fyddem yn gwneud hynny. Mae angen archwiliad diogelwch ar y croesiad sebra; mae gwaith yn mynd rhagddo a byddir yn hysbysu'r aelod am y sefyllfa ddiweddaraf. Byddai'r cyllid a drafodir yn rhoi cwmpas i ni edrych ar y mesurau a gweld os oes rhai a allai weithio'n well.

*Felly a fydd yn rhaid i ni aros i'r arian hwn ddod trwodd i broblemau yng Nghas-gwent gael eu trin?*

Na, mae angen i ni aros penderfyniad y Cabinet ar p'un ai i ymestyn y mesurau dros dro – unwaith fod y sicrwydd hwnnw gennym, gallwn wneud y gwelliannau angenrheidiol. Nid yw gosod tarmac newydd yn dibynnu ar unrhyw beth yn y papur hwn; cafodd yn awr ei gostio a rydym nawr yn ystyried y drefn gwaith, a bydd angen sgwrs gyda'r aelod ar wahân i'r cyfarfod hwn.

*Mae'r rhestr yn Atodiad 2 yn ymddangos fel ychydig o fait accompli. Pa brosiectau eraill gafodd eu cyflwyno na chyrhaeddodd y rhestr yma?*

Rydyn ni wedi ni wedi mynd drwy lawer o waith i ddynodi prosiectau a awgrymwyd a phenderfynu beth y gellir ei gyflawni; fe ddaethant, yn bennaf, o'r adolygiad o gyfarfodydd Ailagor Trefi gyda chynghorwyr sir, cynghorau tref/cymuned a chynrychiolwyr cydnerthedd busnes neu siambrau masnach. Aeth adroddiad blaenorol i'r pwyllgor hwn drwy'r awgrymiadau a'r canfyddiadau hynny. Rydyn ni hefyd yn cynnal gweithdy i swyddogion aml-ddisgyblaeth lle mae cydweithwyr yn cyflwyno llwyth o wahanol syniadau. Eleni, yn neilltuol, cafodd ei yrru'n bendant iawn gan yr hyn y gellir ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol. Ar gyfer y flwyddyn nesaf, os daw syniadau eraill i law, gellir eu hystyried.

*Ydyn ni'n bwriadu llofnodi siarter Creu Lleoedd Cymru, ac ydych chi'n gweld hynny'n cael ei glymu mewn i'r strategaethau presennol?*

Ydw. Dylai adroddiad Cabinet ar gyfer 15 Medi gael ei gyhoeddi yn yr ychydig ddyddiau nesaf lle'r ydym yn argymell llofnodi'r siarter. Mae'n sylfaen i hyn i gyd, gan mai creu lleoedd yw'r syniadau ehangach am sut ydym yn trin adfywio ffisegol. Ond mae hynny eisoes wedi ei ymwreiddio mewn polisi cenedlaethol a llawer o'r hyn a wnawn.

*Os nad yw trefi eisiau parhau gyda'r trefniadau dros dro, a fedrai fod trefniant rhannu, lle mae rhai'n parhau gyda'r rheoliadau diwygiedig ac eraill yn dychwelyd i'r sefyllfa flaenorol?*

Gallai, efallai y bydd y Cyngor eisiau symud ymlaen ond yn credu fod angen i ni ymgynghori mewn cymunedau, er enghraifft. Mae'r penderfyniad i gadw'r mesurau dros dro mewn rhai trefi

ond eu tynnu o eraill yn bosibl, naill ai ar y dechrau neu dros y cyfnod 18-mis, fel y cwyd yr angen.

*Yng nghyswllt Atodiad 1, a fu unrhyw geisiadau ar gyfer grantiau i drawsnewid o fanwerthu i breswylio?*

Dim eto, ond nid yw'r meini prawf a chyfleoedd grantiau yn y cylch cyhoeddus eto. Unwaith y cafwyd cytundeb gan y Cabinet, byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i bethau fel y cynllun amlen i geisio cynyddu'r galw. Mae'r tîm Tai yn cynnal gwaith ar wahân i asesu pa gyfleoedd sydd yna ar gyfer defnyddiau preswyl yng nghanol y dref. Os yw hynny yn ffrwd cyllid a gyflwynwn, yna byddwn yn rhagweithiol wrth ei hyrwyddo. Ar gyfer y cynnig Blwyddyn 1, byddai angen i gyllid fod ar gael erbyn 31 Mawrth 2022, ond mae hynny'n rhywbeth y gallwn ei gynnwys yng nghynnig 2022-23. Mae hyn yn rhan o'n rhesymeg dros gyflwyno rhaglen dwy-flynedd, gan fod gan rai pethau amser arwain i mewn hir.

*Unwaith y'i cymeradwywyd gan y Cabinet, fyddwn ni'n hysbysebu i'r gymuned fusnes yn gyffredinol y bydd y grantiau hyn ar gael?*

Byddwn, byddwn yn cynnal ymwybyddiaeth a farchnata wedi'i dargedu. Os oes cynllun amlen mewn tref neilltuol, gwnawn yn siŵr y rhoddir cyhoeddusrwydd i hynny yn yr ardal honno e.e. gwelliannau i flaen siopau Cil-y-coed.

*Yn y cyflwyniad dangosol ar gyfer adnewyddu Theatr y Borough o £250ki, mae eu hadroddiad yn sôn am £175k*
O'r £250k yn y tabl ar gyfer yr adroddiad hwn, mae 30% yn arian cyfatebol; felly mae'n £175k o grant a £75k o arian cyfatebol. Maent wedi eu cyfuno yn adroddiad Theatr y Borough.

5. **Cyflogaeth a Sgiliau – Craffu'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y rhaglenni cyflogaeth, sgiliau a phrentisiaethau (adroddiad i ddilyn).**

   Gohiriwyd yr eitem hon i gyfarfod arbennig ar 16 Medi.

6. **Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu (adroddiad i ddilyn).**

7. **Blaengynllun Gwaith y Cyngor a'r Cabinet.**

8. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

   Cadarnhawyd y cofnodion a'u llofnodi fel cofnod gywir, cynigiwyd gan y Cynghorydd Strong ac eiliwyd gan y Cynghorydd Davies.

9. **Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu 15 Gorffennaf 2021.**

10. **Cyfarfod Arbennig - Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu 26 Gorffennaf 2021 (adroddiad i ddilyn).**

11. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

The meeting ended at **11.02 am**

monmouthshire
sir fynwy